Llywodraeth Cymru
Welsh Government


| | **Newidiadau i'r drefn tagio** | **Tud** |
|---|---|---|
| C.1 | Pryd mae angen tagio defaid a geifr? | 2 |
| C.2 | Beth yw'r dewis o ran tagio? | 2 |
| C.3 | Pam mae ffermwyr yn dewis defnyddio'r tag lladd EID yn lle'r EID llawn? | 3 |
| C.4 | A fydd ffermwyr yn cael newid eu meddwl a rhoi'r EID llawn ar eu hŵyn er mwyn cael eu cadw ar ôl y 12 mis? | 3 |
| C.5 | A ga' i osod tagiau lladd nad ydyn nhw'n rhai EID? | 3 |
| C.6 | Sut mae cael gwared ar y tagiau lladd nad ydyn nhw'n rhai EID? | 3 |
| C.7 | Os gwnes i roi tag lladd confensiynol (nad yw'n dag EID) ar oen cyn 1 Ionawr 2016, a oes angen imi ei aildagio â thag lladd EID cyn y ca' i ei symud oddi ar y daliad lle cafodd ei eni? | 3 |
| C.8 | Beth ddylwn ei wneud os yw'r anifail yn colli ei dag? | 3 |
| C.9 | Pa fath o dag y ca' i ei ddefnyddio fel tag cyfnewid? | 4 |
| C.10 | O ble mae cael rhif daliad? | 4 |
| C.11 | O ble mae cael rhif diadell? | 4 |
| C.12 | Sut mae archebu tagiau swyddogol? | 4 |
| C.13 | Sut bydd y rhifau tagiau newydd yn cael eu rhannu? | 5 |
| C.14 | Tagiau o ba liw ydw i'n cael eu harchebu? | 5 |
| C.15 | A yw'r ceidwad yn cael printio gwybodaeth ychwanegol ar dag UK swyddogol? | 5 |
| C.16 | A fydd ceidwad yn cael gosod ei dag ei hun ar ei ddafad? | 5 |
| | **EIDCymru a Chofnodi Symudiadau** | |
| C.17 | Beth yw EIDCymru? | 5 |
| C.18 | Beth yw manteision EIDCymru? | 6 |
| C.19 | Ai'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail ddylai cofnodi'r symudiad? | 6 |
| C.20 | Pwy sy'n gorfod rhoi gwybod yn electronig i EIDCymru? | 6 |
| C.21 | A ga' i roi gwybod am symudiadau'n electronig? | 6 |
| C.22 | Sut mae rhoi gwybod am symudiadau'n electronig? | 6 |
| C.23 | Os ydw i'n creu symudiad electronig ar EIDCymru, a fydd dal gofyn ifi lenwi ffurflen symudiad papur? | 6 |
| C.24 | A fydd defnyddio EIDCymru i roi gwybod am symudiad yn golygu cost i'r ffermwr? | 7 |
| C.25 | A oes gan EIDCymru linell gymorth? | 7 |
| C.26 | A yw EIDCymru yn gwasanaethu Lloegr a'r Alban hefyd? | 7 |
| C.27 | Os na alla' i wneud yn electronig, i ble ydw i'n anfon y ffurflen AML1? | 7 |
| C.28 | Ble alla' i gael ffurflenni AML1? | 7 |
| C.29 | Pa wybodaeth y mae'n rhaid imi ei chofnodi ar y ddogfen symud a chofnod y ddiadell? | 8 |
| C.30 | Sut bydd Canolfannau Cofnodi Canolog (CPRCs) yn helpu ceidwaid i gofnodi symudiadau? | 8 |
| | **Cefndir i Reoliadau'r UE** | |
| C.31 | Pam cafodd yr EID ei gyflwyno? | 9 |
| C.32 | A oes manteision defnyddio EID? | 9 |
| C.33 | Pryd dechreuwyd gosod tagiau electronig (EID) ar ddefaid? | 9 |
| C.34 | A oes rhaid i holl wledydd yr UE ddefnyddio EID ar eu defaid a'u geifr? | 9 |
| C.35 | A oes angen rhoi tagiau electronig ar eifr? | 9 |

<u>**Newidiadau i’r drefn tagio**</u>

## 1. Pryd mae angen tagio defaid a geifr?

Rhaid tagio ŵyn/mynnod cyn eu bod yn 6 mis oed os ydyn cael eu cadw o dan system ddwys (dan do), neu cyn eu bod yn naw mis oed os ydyn nhw’n cael eu cadw o dan system llai dwys (h.y. mewn caeau), neu cyn eu symud oddi ar ddaliad eu geni, pa un bynnag sy’n digwydd gyntaf.

## 2. Beth yw’r dewis o ran tagio?

**Mae 2 opsiwn tagio:**

<table>
<tr><td>1. EID Llawn<br></td><td>Mae’r tag EID llawn yn dangos y cod gwlad ‘UK’ a rhif 6 digid y ddiadell (gyda zero o’i flaen) + rhif pum digid yr anifail.<br><br>Mae sglodyn electronig yn y tag melyn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Defnyddiwch yr EID llawn ar:<ul><li>Ŵyn y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y Deyrnas Unedig cyn iddynt gyrraedd eu 12 mis oed</li><li>Ŵyn sy’n cael eu cadw ar ôl eu 12 mis oed i fagu.</li><li>Ŵyn gwryw stôr/tew y bwriedir eu lladd ar ôl eu 12 mis.</li><li>Ŵyn y bwriedir eu hallforio’n fyw.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2. Tag Lladd Electronig<br><br></td><td>Yn dangos y cod gwlad ‘UK’ a rhif diadell y fferm lle cafodd y tag ei osod<br><br>Mae sglodyn electronig yn y tag melyn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Defnyddiwch y tag lladd electronig ar:<ul><li>Ŵyn y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y Deyrnas Unedig cyn iddynt gyrraedd eu 12 mis oed</li></ul></td></tr>
</table>

Mae amrywiaeth o wahanol ddyfeisiau adnabod swyddogol wedi'u cymeradwyo ichi eu defnyddio e.e. tagiau dolen, tagiau botwm, tagiau baner a bandiau bigwrn. Mae bandiau bigwrn (GB), bolws a thatŵs hefyd yn ddyfeisiau adnabod swyddogol (mewn cyfuniadau penodol).

### 3. Pam mae ffermwyr yn dewis defnyddio'r tag lladd EID yn lle'r EID llawn?

Y fantais i ffermwyr yw nad oes gofyn cadw cofnodion am ddefaid unigol a gellir eu symud a'u cofnodi fesul batsh

### 4. A fydd ffermwyr yn cael newid eu meddwl a rhoi'r EID llawn ar eu hŵyn er mwyn cael eu cadw ar ôl y 12 mis?

Byddan – cyn belled â bod modd olrhain yr ŵyn sydd i'w lladd h.y. bod gan y ffermwr gofnod o bob daliad y mae'r oen wedi bod arno, o'r daliad y cafodd ei eni. Mae hyn yn golygu 'codi' neu 'uwchraddio' yr oen o'r tag sengl i'r tag EID llawn a bod y ffermwr felly yn cael ei gadw ar ôl ei 12fed mis.

### 5. A ga' i osod tagiau lladd nad ydyn nhw'n rhai EID?

Na chewch. O **1 Ionawr 2016,** ni fydd tag lladd nad yw'n dag EID yn opsiwn. Rhaid i bob oen sy'n cael ei dagio o **1 Ionawr 2016** gael ei dagio naill ai â'r tag EID llawn neu â'r Tag Lladd EID Sengl (os yw'n cael ei ladd cyn ei fod yn 12 mis oed).

**<u>Rhaid ichi gael gwared neu ddefnyddio'ch holl dagiau lladd nad ydyn nhw'n rhai EID erbyn 1 Ionawr 2016.</u>**

### 6. Sut mae cael gwared ar y tagiau lladd nad ydyn nhw'n rhai EID?

Dylech ddifetha neu gael gwared ar unrhyw dagiau lladd nad ydyn nhw'n rhai EID mewn ffordd ddiogel fel na allan nhw gael eu defnyddio eto.  Chewch chi ddim ar unrhyw gyfrif eu rhoi ar ŵyn y bwriedir eu lladd ar ôl **1 Ionawr 2016.**

### 7. Os gwnes i roi tag lladd confensiynol (nad yw'n dag EID) ar oen <u>cyn 1 Ionawr 2016</u>, a oes angen imi ei aildagio â thag lladd EID cyn y ca'i ei symud oddi ar y daliad lle cafodd ei eni?

Nac oes.  Os cafodd oen ei dagio â thag confensiynol anelectronig cyn **1 Ionawr 2016**, bydd y tag hwnnw yn gwneud y tro ar gyfer ei symud, nes ei fod yn 12 mis oed, gan gynnwys ei symud i Loegr a'r Alban.
Bydd rhai marchnadoedd/lladd-dai wedi penderfynu derbyn dim ond ŵyn/defaid sydd â thag electronig. Dylai ffermwyr holi'r farchnad / lladd-dy perthnasol a yw ŵyn gafodd eu tagio cyn <u>1 Ionawr 2016</u> â thag confensiynol yn dderbyniol.

### 8. Beth ddylwn ei wneud os yw'r anifail yn colli ei dag?

Os yw'r tag yn cael ei golli, os nad oes modd ei sganio, os yw'n amhosibl ei ddarllen neu os yw wedi torri, yna rhaid rhoi tag newydd yn ei le o fewn 28 diwrnod ar ôl sylwi ar y golled neu'r difrod neu cyn i'r anifail adael y daliad, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

## 9. Pa fath o dag y ca' i ei ddefnyddio fel tag cyfnewid?

| Math o dag | Ar eu daliad geni (HoB) | Ddim ar eu daliad geni |
|---|---|---|
| **EID Llawn (defaid wedi'u tagio o 2010 ymlaen)** | **Naill ai:** Rhowch dag newydd tebyg i'r tag a gollwyd (yr un rhif unigol) **neu:** Tynnwch y tag sydd ar ôl a gosod pâr newydd o dagiau EID Llawn a nodi'r manylion newydd ar gofnod y ddiadell | Tynnwch y tag sydd ar ôl a gosod pâr newydd o dagiau cyfnewid EID Llawn COCH a chroesgyfeirio'r manylion newydd ar gofnod y ddiadell |
| **Tag Lladd EID** | Rhowch dag lladd batsh arall o'ch stoc o dagiau, gyda'r un rhif diadell | Rhowch dag lladd electronig coch yn ei le, gyda rhif eich diadell chi arno. Nodwch y manylion ar gofnod y ddiadell. |

Mae'r rheolau ar roi tagiau cyfnewid ar ddefaid hŷn h.y. defaid cafodd eu tagio cyn 2010, i'w gweld ar dudalen 7 y *Canllaw i Geidwaid – Rheolau ar gyfer adnabod defaid a geifr*. Cliciwch yma i'w weld: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/adnabod-defaid-geifr-canllawiau-i-geidwaid.pdf

### O ble mae cael rhif daliad?

Os ydych yn ffermwr newydd, rhaid ichi gofrestru'ch daliad gyda swyddfa Taliadau Gwledig Cymru o fewn mis ar ôl dechrau cadw'ch anifeiliaid cyntaf. Bydd RPW yn rhoi rhif daliad (CPH) 9 digid unigryw i chi.

Rhif ffôn Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru yw 0300 062 5004.

## 10. O ble mae cael rhif diadell?

Cysylltwch ag Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) am rif (marc) diadell neu eifre (geifr) ar gyfer eich daliad.  Mae angen rhif diadell/geifre cyn y cewch brynu tagiau electronig â rhifau ac â'ch rhif CPH arnyn nhw.

Gallwch gysylltu â Swyddfa APHA yn y De (yng Nghaerfyrddin) a Swyddfa APHA yn y Gogledd (yng Nghaernarfon) trwy ffonio 0300 303 8268.  Bydd opsiwn i glywed y neges yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## 11. Sut mae archebu tagiau swyddogol?

I weld rhestr o ddyfeisiau RID cymeradwy, chwiliwch gan ddefnyddio'r term '*EID tags*' ar wefan RPA yn www.rpa.gov.uk. Rhaid i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo'r dyfeisiau cyn y caiff cynhyrchwyr tagiau gyflenwi tagiau fel rhai swyddogol ar gyfer defaid a geifr.

### 12. Sut bydd y rhifau tagiau newydd yn cael eu rhannu?

ETAS* sy'n neilltuo rhifau tagiau i gynhyrchwyr tagiau. Pan fydd ceidwad yn archebu ei dagiau electronig cyntaf, bydd ETAS yn dechrau â'r rhif '00001' gan gario ymlaen o hynny mewn trefn.

**ETAS (Ear Tag Allocation System) sy'n rhannu rhifau tagiau swyddogol ym Mhrydain. Mae'n cael ei rhedeg gan RPA-BCMS*

### 14. Tagiau o ba liw ydw i'n cael eu harchebu?

Melyn, coch a du yw lliwiau tagiau **swyddogol**:

| | |
|---|---|
| Bydd tagiau electronig yn felyn | ELECTRONIG |
| Tag cyfateb yn ddu pan roddir bolws | BOLWS |
| Pob tag cyfnewid, gan gynnwys EID, yn goch<br>(heblaw'r rheini a roddir ar y daliad geni) | CYFNEWID |

*(Dyma'r rheolau yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r Alban wedi neilltuo lliw ar gyfer eu tagiau EID – maen nhw felly'n cael bod o unrhyw liw heblaw coch a du, er bod ffermwyr yr Alban wedi'u cynghori i ddefnyddio tagiau melyn os ydyn nhw'n gwerthu defaid dros y ffin).*

Os ydy'r anifail wedi'i dagio â thag a dyfais arall neu â thag rheoli'r ceidwad ei hun, gall y tag cyfateb confensiynol fod o unrhyw liw/liwiau arall (e.e. gellir defnyddio lliwiau gwahanol ar rannau gwahanol y tag).

### 15. A yw'r ceidwad yn cael printio gwybodaeth ychwanegol ar dag UK swyddogol?

Ydy. Ond rhaid sicrhau nad yw'r rhifau/llythrennau ychwanegol yn cuddio neu'n drysu'r rhif UK swyddogol. Efallai bydd y ceidwad am roi llythyren cod o flaen y rhif rheoli a/neu ar ochr arall i'r tag o'r rhif swyddogol.

### 16. A fydd ceidwad yn cael gosod ei dag ei hun ar ei ddafad?

Bydd. Ond rhaid gofalu nad yw'r tag hwn yn cynnwys y llythrennau UK na rhif swyddogol y ddiadell na rhif yr anifail. Ni chewch ddefnyddio un o'r lliwiau swyddogol. Bydd ceidwaid sy'n defnyddio tagiau o liw gwahanol at ddibenion rheoli (e.e. i nodi blwyddyn geni) yn cael parhau i wneud hynny cyn belled nad ydyn nhw'n defnyddio'r lliwiau swyddogol.

## EIDCymru a Chofnodi Symudiadau

### 17. Beth yw EIDCymru?

System cofnodi electronig yw EIDCymru. Mae marchnadoedd, lladd-dai a cheidwaid defaid yn ei defnyddio i gofnodi symudiadau'n electronig ac mae'n golygu bod gan Gymru system gadarn fodern ar gyfer cofnodi a thracio

symudiadau er mwyn gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i glefyd. Am ragor o wybodaeth am EIDCymru, ewch i www.eidcymru.org.

O 18 Ionawr 2016, mae ffermwyr wedi cael y dewis naill ai i roi gwybod am symudiadau'n electronig neu i barhau i gofnodi symudiadau ar drwyddedau papur.

Unwaith y bydd manylion y symudiad wedi'u dilysu gan EIDCymru, caiff yr wybodaeth ei throsglwyddo i gronfa ddata'r llywodraeth, AMLS (System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid).

### 18. Beth yw manteision EIDCymru?

- Mae'n fodern ac yn hawdd ei ddefnyddio.
- Mae ffermwyr yn gallu creu eu dogfennau symud yn gyflym ar-lein (yn lle gorfod postio copi papur i roi gwybod am y symudiad).
- Mae ffermwyr yn gallu ei ddefnyddio i gadarnhau'n electronig bod defaid wedi'u symud i'r fferm (yn lle gorfod postio copi papur i roi gwybod am y symudiad).
- Mae'r swyddfa'n gallu cynnig gwasanaeth i ffermwyr sydd heb gysylltiad â'r rhyngrwyd.
- Data cyflymach a mwy dibynadwy am symudiadau, gwella gallu'r Llywodraeth i dracio ac olrhain symudiadau anifeiliaid, yn enwedig adeg clefyd.

### 19. Ai'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail ddylai cofnodi'r symudiad?

Ie, y ceidwad sy'n derbyn sy'n gorfod rhoi gwybod am symudiad i'w fferm. Rhaid gwneud hynny o fewn 3 niwrnod (boed ar bapur neu'n electronig).

### 20. Pwy sy'n gorfod rhoi gwybod yn electronig i EIDCymru?

Bydd gofyn cyfreithiol i bob marchnad, lladd-dy, canolfan gasglu a chanolfan grynhoi ddefnyddio'r system newydd i roi gwybod am symudiadau o 18 Ionawr 2016.

### 21. A ga' i roi gwybod am symudiadau'n electronig?

Cewch. Mae ceidwaid defaid a geifr yn cael rhoi gwybod am symudiadau'n electronig ac ar bapur (AML1). Rhaid cofnodi'r symudiad o fewn 3 niwrnod o'r symudiad i'r daliad.

### 22. Sut mae rhoi gwybod am symudiadau'n electronig?

Y cam cyntaf yw cofrestru am gyfrif EIDCymru trwy'n gwefan www.eidcymru.org.

Mae help cam wrth gam ar gael ar wefan EIDCymru ar sut i ddefnyddio portholau EIDCymru. Cysylltwch ag EIDCymru ar **01970 636959** neu contact@eidcymru.org os oes angen rhagor o help arnoch i gofnodi symudiadau'n electronig.

### 23. Os ydw i'n creu symudiad electronig ar EIDCymru, a fydd dal gofyn ifi lenwi ffurflen symudiad papur?

Ar ôl creu'r symudiad yn electronig, bydd system EIDCymru yn gadael ichi brintio ffurflen o'r symudiad gyda'r manylion wedi'u llenwi'n barod arni. Fel arfer, bydd angen ichi brintio 3 chopi h.y. un ar gyfer y cludwr a 2 ar gyfer ceidwad pen y daith.

Ni fydd angen creu dogfen bapur os bydd ceidwad dechrau'r daith a cheidwad pen y daith yn defnyddio EIDCymru i greu cofnod *electronig* o'r symudiad a bod gan y cludwr gopi electronig o'r ddogfen symud. *Efallai* y daw hyn yn fwy cyffredin ymhen amser.

### 24. A fydd defnyddio EIDCymru i roi gwybod am symudiad yn golygu cost i'r ffermwr?

Na fydd. Does dim tâl o gwbl am ddefnyddio EIDCymru. Nid oes cost chwaith i ffermwyr sy'n defnyddio'r ffurflen bapur, a rhaid postio'r ffurflenni i swyddfa EIDCymru yn Aberystwyth.

### 25. A oes gan EIDCymru linell gymorth?

Oes. Mae Llinell Gymorth yn rhan o'r gwasanaeth. Rhif y llinell yw **01970 636959.** Mae ar agor o 9am – 5pm Llun – Gwener.

Bydd y llinell gymorth yn gallu ateb eich ymholiadau cyffredin am y broses a'ch helpu hefyd os ydych am gofnodi symudiadau'n electronig.

### 26. A yw EIDCymru yn gwasanaethu Lloegr a'r Alban hefyd?

Nac ydy. Mae EIDCymru'n delio â symudiadau defaid, geifr a cheirw yng Nghymru yn unig. Mae ScotEID yn delio â symudiadau yn yr Alban ac ARAMS â symudiadau yn Lloegr.

Bydd EIDCymru yn cysylltu â chronfeydd data Lloegr a'r Alban i rannu gwybodaeth pan fydd symudiadau dros y ffin.

Bydd ffermwyr o Gymru sydd am ddefnyddio ffurflen bapur i gofnodi symudiadau oddi ar eu fferm i safle yn Lloegr yn gorfod defnyddio'r ddogfen AML1 newydd. Bydd ceidwad pen y daith yn Lloegr yn anfon y ffurflen i swyddfa ARAMS.

### 27. Os na alla' i wneud yn electronig, i ble ydw i'n anfon y ffurflen AML1?

Rhaid postio'r ffurflen AML1 i swyddfa EIDCymru o fewn 3 niwrnod ar ôl y symudiad. Cyfeiriad EIDCymru yw:
**EID Cymru, Tŷ Merlin, Parc Merlin, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3FF.**

### 28. Ble alla' i gael ffurflenni AML1?

Cysylltwch â swyddfa EIDCymru ar **01970 636959** neu contact@eidcymru.org i gael rhagor o ffurflenni symud.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## 29. Pa wybodaeth y mae'n rhaid imi ei chofnodi ar y ddogfen symud a chofnod y ddiadell?

| Defaid | Symud o fewn yr un eiddo (e.e. tac) | Symud yn syth i ladd-dy | Symudiadau eraill (e.e. marchnad/gwerthu/sioe) |
|---|---|---|---|
| **Wedi'u tagio cyn 31 Rhagfyr 2009 (h.y. heb dagiau dwbl EID cyn 31 Rhagfyr 2009 a thagiau sengl cyn 22 Chw 2008)** | Nifer y defaid sy'n cael eu symud<br><br>Nifer y defaid sy'n cael eu symud | Nifer y defaid sy'n cael eu symud<br><br>Nifer y defaid sy'n cael eu symud | Rhif adnabod llawn y ddafad unigol e.e. UK741234 000123/ J1234 005<br><br>Nifer y defaid sy'n cael eu symud |
| **Wedi'u tagio ar ôl 31 Rhagfyr 2009 (EID llawn)** | Nifer y defaid sy'n cael eu symud<br><br>Nifer y defaid sy'n cael eu symud | Rhif UK llawn y ddafad unigol e.e. UK074123600001<br><br>Rhif UK llawn y ddafad unigol e.e. UK074123600001 | Rhif UK llawn y ddafad unigol e.e. UK074123600001<br><br>Rhif UK llawn y ddafad unigol e.e. UK074123600001 |
| **Ŵyn wedi'u tagio â thag lladd sengl** | Nifer yr ŵyn sy'n cael eu symud<br><br>Nifer yr ŵyn sy'n cael eu symud | Nifer yr ŵyn sy'n cael eu symud (gan gofnodi pob rhif diadell gwahanol)<br><br>Nifer yr ŵyn sy'n cael eu symud (gan gofnodi pob rhif diadell gwahanol) e.e. UK741234 x 24; UK741235 x 26<br><br>Nifer yr ŵyn sy'n cael eu symud = 50 | Nifer yr ŵyn sy'n cael eu symud<br><br>Nifer yr ŵyn sy'n cael eu symud (gan gofnodi pob rhif diadell gwahanol) e.e. UK741234 x 24; UK741235 x 26<br><br>Nifer yr ŵyn sy'n cael eu symud = 50 |

GLAS = DOGFEN SYMUD (AML1)  COCH = COFNOD Y DDIADELL

## 30. Sut bydd Canolfannau Cofnodi Canolog (CPRCs) yn helpu ceidwaid i gofnodi symudiadau?

Mae marchnadoedd, lladd-dai, canolfannau casglu a chanolfannau crynhoi i gyd wedi'u cymeradwyo fel CPRCs. Os byddwch yn ticio'r blwch CPRC ar y ddogfen cofnodi symudiadau oddi ar y fferm, bydd y Ganolfan yn sganio tag EID eich anifail ac yn rhoi rhestr ichi ei chadw gyda chofrestr eich daliad a'ch cofnodion symud. Rhaid ichi ddefnyddio'r rhestr o rifau'r tagiau gewch chi gan y CPRC i ddiweddaru cofrestr eich daliad o fewn 48 awr wedi i'r anifail adael eich daliad. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y rhestr yn gywir (hynny yw, bod EID eich holl anifeiliaid ar restr y CPRC).

**<u>Cefndir i Reoliadau'r UE</u>**

### 31. Pam cafodd yr EID ei gyflwyno?

Pan drawyd y wlad gan Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001, gwelwyd gwendidau mawr yn y trefniadau adnabod ac olrhain. Costiodd y clefyd ryw £6 biliwn i economi'r DU. Yn 2003, cytunwyd ar reolau newydd ar gyfer adnabod ac olrhain anifeiliaid yn well, yn enwedig wrth eu cludo. Y cam cyntaf oedd cyflwyno system o dagio dwbl. Yr ail gam oedd cyflwyno trefn ar gyfer olrhain anifeiliaid unigol a olygai cofnodi a thagio anifeiliaid unigol yn electronig.

### 32. A oes manteision defnyddio EID?

Mae cadw cofnodion am anifeiliaid unigol trwy EID yn helpu i'w holrhain trwy'r gadwyn gyflenwi.
Mae ffermwyr unigol eisoes yn defnyddio EID fel erfyn rheoli i helpu i wella ansawdd eu diadelloedd magu ac i gadw cofnodion milfeddygol gwell am eu hanifeiliaid.

### 33. Pryd dechreuwyd gosod tagiau electronig (EID) ar ddefaid?

Roedd EID yn orfodol ar gyfer defaid a aned ar neu ar ôl <u>31 Rhagfyr 2009.</u> **Rheoliad 21/2004.**

Dolen i Reoliadau Defaid a Geifr (Cofnodi, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015 isod:
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1992/contents/made

Dolen i Reoliad CE 21/2004 isod:
http://eurlex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2004:005:0008:0017:EN:PDF

### 34. A oes rhaid i holl wledydd yr UE ddefnyddio EID ar eu defaid a'u geifr?

Nac oes, mae rhai gwledydd wedi'u heithrio rhag tagio electronig, os yw'r:

- boblogaeth ddefaid a geifr gyda'i gilydd *yn llai na* 600,000 neu os yw'r
- boblogaeth eifr *yn llai na* 160,000

Yn ymarferol, mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i 13 o wledydd yr UE, sy'n cyfrif am **<u>98%</u> o holl ddefaid yr UE**, *yn gorfod* rhoi *tagiau electronig* ar eu hanifeiliaid.

### 35. A oes angen rhoi tagiau electronig ar eifr?

Ddim yn y DU. Nid oes 160,000 o eifr yn y DU, trothwy Rheoliad yr UE. Ond bydd dal gofyn cofnodi geifr unigol ar <u>gofrestr y daliad</u> a llenwi <u>dogfennau symud</u>. Bydd ceidwaid geifr yn cael tagio'u hanifeiliaid yn electronig os ydyn nhw am wneud. Os felly, rhaid cadw at yr un rheolau ag ar gyfer defaid.